Llén natur

# Bwletin 140
# Hydref 2019

**gan gynnwys Y Bwrdd Natur,**

**adnodd i athrawon a rhieni**



Llwybr Llaethog - Ynys Llanddwyn **Llion Griffiths**


Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

## Cyn i'r niwl wasgaru




*Festuca vivipara* (Yr Wyddfa) Bwlch Main yn gefndir.

**Gwyn Williams**

Y llun gorau o'r PEISWELLT BYWHILIOG a welais erioed. Go dda Gwyn.

**Ffeil-o-ffaith**: mae'r peiswelltydd weithiau yn cenhedlu heb ryw yn y mynyddoedd. Yn lle hadau maent yn cynhyrchu clonau ohonynt eu hunain sydd yn gwasgaru ac yn gwreiddio ar dir addas.

## Yr hirheglyn



**Hir heglog** ar y ffenestr acw 09 09 2019 **Derec Jones**

Am enw da. Ai enw personol arno Derec ta arfar lleol?

Na, dyma'r enw dwi'n gofio yn ogystal a " dadi longlegs".

Oswyn Williams **Jac y bagla**
Twm Elias **Pry teiliwr** (Arfon)
Twm Elias ...ac wedi clywed 'hirheglyn' hefyd (anghofio lle);
Ann Ffrancon **Mari Faglog** (Dolgellau, neu Llanrwst neu Fethesda)

Mae yna egin-restr enwau llafar yn fan hyn. Oes yna chwaneg (cofiwch ddweud LLE)?

**Cysylltwch â Llên Natur :**
**llennatur@yahoo.co.uk**

**Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook**

## 2019 Blwyddyn y Cnau



Blwyddyn *mast* i gnau cyll eleni. Mwy o gnau nag o wiwerod yn Stiniog beth bynnag. Wedi tostio potiad i'w cadw efo mêl Llanrug.



....bron iawn yn barod i ddisgyn. Ambell goeden yn well na'i gilydd. Clapia tew hefyd. Wedi cael y mêl yn ffair fêl Conwy ddoe. Stwff da! tostio mewn padell sych; gadael iddyn nhw oeri a'u rhoi mewn pot jam a thywallt mêl i'w gorchuddio. Barod i'w bwyta yn syth, ond y syniad ydi eu rhoi nhw i gadw tra'n bwyta rhai eraill ffresh.
**Paul Williams**

Dywedodd Gwilym Morris iddo weld 13 cneuen mewn un swp yn ddiweddar yn ardal Bontnewydd

## Mewn cwta hanner canrif







Monte Rosa/Duforspirze, mynydd ucha'r Swistir, yn 1968 ag 2019, o agwedd debyg. Sylwer ar y lleihad yn uchder a maint y rhewlifoedd - ac yn arbennig y Gornergletcher yn y blaendir. **Iolo ap Gwynn**

Fel dringwr ifanc ugain oed es I'r alpau yn 1991 i geisio ambell ddringfa rhew ar fynyddoedd mwyaf gorllewinol Ewrop. Ar y ffordd I'r Dent du Geant wnes i orfod troedio y Mer de Glace am y tro cyntaf. Wythnos yma [Gorff 2018) ddychwelais i ffeindio bod rhaid dringo i lawr grisiau gyda 400 o stepiau i gyrraedd y rhewlif!!! **Graham Williams**



## Tywydd Awst yn Waunfawr

Crynodeb tywydd Waunfawr mis Awst gan Huw "tywydd" Jones:

*Waunfawr station name 1981-2010*
*period of averages (IDEALLY 1981-2010) 19/08 year/month*
*19.4 mean max (C) +0.7 diff from av C*
*12.3 mean min (C) +0.7 diff from av C*
*15.8 mean © +0.6 diff from av C*
*26.7 high max (C) 24 date*
*15.8 low max C 11 date*
*15.5 high min C 9 date*
*7.5 low min C 12 date*
*4.0 grass min C 12 date*

*128 rain total (mm) 103 % of av*
*23 raindays (no. of days with 0.2mm or more)*
*16 wetdays (no. of days with 1.0mm or more) 2*
*.2 most in a day (mm) 10 date*

*No. of days with:*
*0 air frost (air min temp -0.1C or less) 0*
*ground frost (grass min temp -0.1C or less) 0*
*sleet/snow falling (in the UK from 0000-2400 GMT) 0*
*50% snow cover at morning observation hour 0*
*thunder heard (in the UK from 0000-2400 GMT) 0*
*smallhail < 5mm diameter 0*
*largehail >=5mm diameter 0*
*fog at morning observation hour*

*SUNSHINE 145 total*
*sunshine (hours) 107 % of average*
*5 sunless days*

*0900GMT time of morning observation (indicate GMT or BST also)*

*SOIL TEMPS*
*14.5 20cm mean*
*15.0 30cm mean*

*WIND DATA*
*0 days with gale (10min mean wind 39mph/34kts or more)*
*Number of days with wind from*
*2 N*
*0 NE*
*0 E*
*1 SE*
*8 S*
*10 SW*
*10 W*
*0 NW*
*0 calm*
*33 max gust mph 30 date*

*81% cloud cover percent at 09:00 GMT (10:00 BST)*
*92% mean RH at morning observation*
*84 (W) no. of clock hours with 0.2mm or more 0*
*frost duration (hours)*

*1011.4 mean pressure (mb) at 0900 GMT ONLY*
*1024 max pressure at any time of day (21 date)*
*992 min pressure at any time of day (10 date)*

=============================================

*DAILY and MONTHLY STATION NOTES Daily: 10th- Kelvinhelmholtz clouds in NW over Ynys Mon-Anglesey 1840-1845GMT. (Same cloud formation some years ago in WNW over SW Anglesey)*

*Monthly: Warmest August (+0.6C above average) since 2004, which only emphasizes how cool August has been since then. As noted before, there has been a steady deterioration in the sort of summery weather to be expected of August since 2003 at this location. At least rainfall was about normal, and sunshine hours slightly above normal. Once again, as has been the case since 2005, winds from between SW and W predominated during August 2019, with the average jet stream position N Ireland across N Scotland.*

*Season: Over the three months June-August temperature was 0.5C above normal, rainfall 111% of normal, sunshine 95% of normal.*

## Eira yn Llandudno yn Ionawr 1913

Mae yna olwg LLWYFENaidd ar y coed yn y llun ac mi fasa eu maint yn ffitio efo tyfiant o 40 mlynedd. Go brin eu bod nhw yno o hyd.... tybed be ddigwyddodd iddynt, a pha



Roedd hi'n bwrw eira yn Llandudno yn Ionawr 1913, meddan nhw. Oes rhywun yn gwybod pryd?

Yn ôl John Kington (2010), Climate and Weather (Collins), 11-13 Ionawr [1913]: "*severe snowstorm*". Dim son arall am eira mawr y flwyddyn honno. Bedi'r coed yna mae'r bobl yn cysgodi 'tanynt ar y dde tybed?


Dwi'n hoff iawn o hen bapurau newydd - mewn un o 1872, mae 'na adrodd am goed yn cael eu plannu hyd y prom, ac maen nhw'n cynnwys amrywiadau o poplys, marsan, llwyfenni, a tresi aur (gobeithio ges i yr enwau Cymraeg cywir - poplar, sycamore, elm & laburnum), felly dwi'n credu llwyfenni ydyn nhw yn y llun.

Dyma ddywed y papur newydd uchod:

> *"PLANTING TREES Llandudno Voluntary Committee have at last comiii"iiced to work iu real earnest. The first trees were planted on the promenade on Saturday last by the family of Mr Coghill, who is one of the most munificent subscribers to tbe fund, and the ceremony was wtnessed by a large number of ladies and gentlemen who have interested themselves in the movement. The yoitiig trees were provided with adequate sapports. and having stood the severe gale of Sunday, it is confidently believed that the experiment, which has been decried in some quarters, will prove a decided success. During the week the work has been carried on with great activity, under the able superintendence of Mr Hevitson, whose long and varied experience cannot fail to be of great value to the committee. The row of trees on the promenade already extends from the North Parade to the Queen's Hotel, and it includes varieties of poplar, sycamore, elm, and laburnum. The trees look strong and healthy, and no fault can be found with the way in which they arc planted and arranged. After completing the promenade, the eommittee will continue the work in other parts of the town, and now that the movement has assumed a tangible shape, we trust that it will obtain the warm and practical support of the public."*

Yn sbio'r trwy'r papurau newydd o Ionawr 1913, mae 'na adroddiadau am eira yn ardal Yr Wyddgrug, ond dim sôn am Llandudno. (Dwi ddim yn deud nad oedd eira yn Llandudno adeg honno wrth gwrs - jest methu ffeindio manylion mewn papur newydd!)

## Pengam



Pengam yn Aberogwr **Angharad Jones**

Ni fu amser pan oedd y pengam yn gyffredin yng Nghymru. Dyma gofnod o ddechrau'r ganrif ddiwethaf

20 Ebrill 1922 Llandinam Dyddiadur y Parch. Lorimer Thomas 1921-1942


> Nodiadau: ... *I saw a Wryneck, no note heard, curious hawk-like pointed wings in flight, & a gliding motion through trees. Colouring, brown above & white below esp. below chin very like Treecreeper. ...*

## Blas yr hydref



**Albwm Gill Brown o'I gardd yn Waunfawr, ail wythnos o Fedi**

## Mynwenta diweddar, eglwys Llanrug




MYNWENTA YN EGLWYS LLANRUG bore ma 18 Medi: Damwain a achoswyd o bosib gan dywydd eithriadol yn ôl cofnodion eraill yr un diwrnod (a llawer o hanesion eraill diddorol o'r un cyfnod) isod.

Diolch i ymchwil Dewi Lewis i bapurau newyddion y cyfnod, amlygwyd cysylltiad â'r tywydd gerwin:

> *"...Credai, gan fod ychydig lithriad yn y ffordd, a'r gwynt a'r ystorm mor erwin, i'r horse-box ei 'redeg'..."*

Dwi'n cofio pan yn croesi'r lein y Cambrian ar dir Y Faeldre yn ardal flynyddoedd yn ol mewn gwynt mawr - methais a chlywed tren oedd bron ar fy mhen cyn i'r gyrrwr ganu ei gorn. Roedd braw y ddau ohonom cymaint a'i gilydd. Petasai'r gwaetha wedi digwydd ni fyddai unrhyw record o wir achos y ddamwain, sef swn rhuo'r gwynt. Nid anghofiaf fyth y digwyddiad. **Duncan Brown**

3/1/1916, Llandudno (Dyddiadur Harry Thomas, Nantygamar, Llandudno LlGC Archifdy Conwy)

> *Baro. 29.85 - 29.82 No rain. George and I go chip hunting on the shore to the **Little Orme, notice an upset Bathing Van - a remnant of the gale*** [Rhywun yn gwybod beth olygai HT wrth hela 'chips']

1/1/1916, Llandudno (Dyddiadur Harry Thomas, Nantygamar, Llandudno LlGC Archifdy Conwy)

> ***SW gales with driving rain...... Start for West shore with eggs but got no further than [Sef...]. Trams stop running on account of the gale. 12 Mine Sweepers in the Bay for shelter.*** *( Mr [...] hears that 2 U.Boats were netted off the Great Orme during the week). J & H **Bowens chimney pot blown down***

1/1/1916, Rhyd ddu (Llangollen Advertiser Denbighshire Merionethshire and North Wales Journal 4 Ion 1916

> ***Chwythodd ystorm fawr Dydd Calan refreshment room gorsaf ffordd haiarn Rhyd-ddu yn ysgyrion***


1/1/1916 Llanrwst (Llangollen Advertiser Denbighshire Merionethshire and North Wales Journal 4 Ion 1916)

> ***Chwythwyd amryw o bersonau oddiar eu traed yn Station Road, Llanrwst, gan y storm fawr ddiweddaf.***

## Ymwelydd â Nant Gwynant








Roedd tri ohonom yn cerdded ar hyd y pafin wrth sgowtian am le i ddal gwyfynod mis nesa yn Nant Gwynant pan welodd un ohonom (Bruce) y gwyfyn anferth hwn ar olwyn perchennog y caffi gerllaw. (Mi faswn i a Dominig wedi ei bashio yn gwbl ddiarwybod - go dda Bruce)

*CONVOLVULUS HAWKMOTH!* (gwalchwyfyn y taglys) MEDDWN yn syth (dwn i'm pam, dim ond yr adennydd uchaf digon plaen yr olwg oedd i'w gweld a doeddwn i erioed wedi gweld un yn y cnawd - dim ond mewn lluniau). Doedd Bruce ddim mor fyrbwyll a minnau, ac roedd yn amharod i ddweud beth oedd o'n meddwl oedd o. Treulion ni weddill y pnawn yn dadlau ac yn y diwedd cynigiodd B mai gwalchwyfyn y pinwydd oedd o. Doedd dim byd amdani ond bet!! Roedd ein balchder yn werth £10!!

Ar ôl cyrraedd y llyfrau y noson honno, yndw dwi'n gweld be sydd gen Bruce - patrwm yr adennydd blaen yn ffitio gwalchwyfyn y pinwydd yn well na gwalchwyfyn y taglys - ond.... Mae lliwiau'r corff yn cydfynd yn llawer gwell â'r 'taglys' (gwglwch os nad ydych yn fy nghoelio). A phu'n bynnag, nid yw'r 'pinwydd' yn hedfan ar ôl mis Mehefin! Felly dwi'n hawlio fy negpunt diolch yn fawr!!

**Adroddiad mis nesa am yr helfa wyfynod o Craflwyn, Beddgelert ddiwedd Medi**

## Copyn taenwe cyffredin




Rhywun yn gwybod enw y pry cop yma oedd ar ei we, ger Llyn Padarn, Llanberis, heddiw yn disgwyl am ei ginio tybiwn! **Chris Rose-Thomas**

Dyma farn arbenigol Richard Gallon: "*It's a female Linyphia triangularis. One of the larger money spiders which matures in late summer and builds sheet webs in bushes and brambles.*"

Beth am enw? Mae'n perthyn i'r *money spiders*, y teulu sydd â'r mwyaf o aelodau, llawer yn fach iawn ac angen meicrosgop cryf i'w gwahaniaethu. Dim llawer o help felly I leugwr. Ond mae'r we yn nodweddiadol o lawer yn y grwp - rhyw gynfas mân sy'n anodd i'w weld nes daw'r niwl nesaf i'w hamlygu ac mae'r niferoedd ohonynt wedyn yn blaen i'w gweld. *Sheet web* yw'r enw ar y mat o we - taenwe dwi'n awgrymu. Felly dyma gynnig: ...***Common sheet web spider*. COPYN TAENWE CYFFREDIN?**

## Gaeafgysgu cynnar?


pretty graceful little bird. The wettest of wet days.
but a bright starlight night.
August 2nd
A glorious day. Found Campions in the Upper field, and one mulberry on our new Tiny tree. There are many Small Tortoiseshell Butterflies about. Two have been hung up on ceilings in the house for some time, probably because it has been so cold, but now they have gone off again. I frequently see pairs of white butter-flies flitting about close together, but I can never catch them settled down, to see what they are. Another starlight night. Tiny thumb-nail moon.
August 3rd.
Wonderful Summer's day. Blue sky, hot sun. I saw my first ... of the year, darting about in the lane. ...

Cofnod diddorol o ddyddiadur Margaret Shaw o Sussex; ymysg pethau eraill, ar 2 Awst 1927, hanes dau drilliw bach yn 'gaeaf gysgu' ddechrau Awst ar ôl tywydd oer yr haf. Gafodd GB un ymysg dillad yn Waunfawr ddoe ddiwethaf - mi hedfanodd i ffwrdd yn weddol rhwydd.



Cnwd o drilliw bach yn clwydo yn fuan(?) - 29/09/2014 mewn blwch adar. Ydy'r nifer wedi cynyddu ers y llun diwethaf ym mis Awst **Wil Williams**

## Mis y gwalchwyfynod helyglys?





Welais tua cant neu fwy or gwalch wyfyn o amgylch Travelodge, Bangor ddoe. **Oswyn Williams**

Roedd 2019 yn gofiadwy am lindys gwalchwyfyn yr helyglys. Dyma gofnodion 2009 I gyd erbyn mynd I'r wasg. Gobeithir dangos rhain fel map mis nesaf. Dim on dau gofnod gawson ni y llynedd.

Beth sydd i gyfri am hyn? Mwy o oedolion gwalchwyfyn eleni? (dim tystiolaeth yn ffigyrau'r trapiau. Cadw golwg flwyddyn nesa.) Mwy o baraseitiau fel pryfed icnewmon yn eu haflonyddu a'u gwneud yn fwy amlwg? Ynteu mwy ohonoch chi aelodau Cymuned Llên Natur yn effro I'r hyn sy'n mynd ymlaen o'ch cwmpas?

MeiraJ Pwllheli. SH33. wythnos 35
MWJ Llanrug. SH56. wythnos 35
DW Cors Ddyga. SH46. wythnos 36
MairJ Trefechan, A'ystwyth. SN58. wythnos ?
JR Tanycoed, Llanrug. SH56. wythnos 35
JR Betwsycoed. SH75 wythnos ?
JR Waunfawr. SH55 wythnos 36
OE Rhostryfan. SH55 wythnos 36
GE Botwnnog. SH23 wythnos 36
NAJ ????
EW Caernarfon. SH46 wythnos 35
PJ Rhydaman. SN61 wythnos 36
KO'B CwmGreigddu, Trawsfynydd. SH73 wythnos 31
OW Gaerwen. SH47 wythnos 31
IR CoedClocaenog. SJ05 wythnos 34
OW Gaerwen. SH47 wythnos 32
OW Gaerwen. SH47 wythnos 33
KW/Nefyn. SH34 wythnos 33

## Arswydbeth diniwed





Daeth hwn i'r fei yng Nghanolfan Ymwelwyr Ynyslas, Ceredigion Medi 11, 9:43 yb ·

*During essential site maintenance on Monday afternoon [9 Medi] one of our assistant reserve managers, Phil Evans, found a magnificent Deaths Head Hawkmoth at rest on a fence post. I think you'll agree it's a beauty!*

**Phil Evans**

9/10/1971 Niwbwrch Nature in Wales 1972: *A death's head hawk moth Acherontia atropos was found on a stone wall at Newborough* (CF Tunnicliffe)

0/5/1954 Dolgellau Nature in Wales 1: *DEATH'S HEAD HAWK-MOTH. Mer. One was found at Dr. Williams' School, Dolgelley, in early May 1954.* (Miss M.JONES.)



Pa fath o lindysen yw hon? Hynod o liwgar ac yn anferth wedi ei weld yn Mhenrallt Pwllheli. 31 Awst eleni **Dyfed Ellis Pritchard**

Cafwyd sylw Prydeinig ar 16 Awst 2003 pan gafwyd lindysen gwalchwyfyn y benglog yn Henfaes Abergwyngregyn. Cyhoeddwyd adroddiad a llun trawiadol dros ben yn y Daily Telegraph ac ar newyddion y teledu.

Ym Medi 1976 cafwydau chwiler y gwalchwyfyn hwn yn Nyffryn Ardudwy wrth I wr lleol godi tatws.

Tybed fydd lindysen Pwllheli yn deor yn 2020?

## Helfa ffwng a sgram, 6 Hydref, Penllyn, Llanberis

## Myn Awst





Golygfa anghyffredin ym Mis Awst

Tair byches a'i myn, y tri wedi eu geni yn Awst, hefo un ohonynt dim ond rhai dyddiau oed. **Gwilym Arthur**

Dyma'r unig gofnod yn y Tywyddiadur o fagu hwyr. Dyddiau "hela'r geifr" DB ar y Rhinogydd yn y 70/80au:
Gorffennaf 1977: "*Llyn Du south 5 goats 1 kid still suckling, rest females*"

Yn y 70au roedd geifr fferal y Moelwyn yn ddu. Daeth bwch du a gwyn (brîd y Bagot o Amwythig) yno o'r Rhinogydd ar grwydr yn yr 80au a gadael ei ôl! Oes gen rhywun hen luniau o eifr Moelwyn y cyfnod hwnnw?

## Torri ysgall (t'au cadw mewn mannau)?



Nico, Llan Ffestiniog 14 Medi 2019 **Gerallt Roberts**

13 Awst 1932, Bwlchtocyn (Dyddiadur John Owen Hughes, Crowrach, Bwlchtocyn)

> ***Torri ysgall**, cario scrwff. Bwrw at gyda'r nos.*

## Ceisio hedfan o flaen y tywydd





Darn o Blackburn Botha Mk1 'nath taro mynydd Llwytmor yn Awst 1943.. L6202/6.20 o no 11 radio school... 28fed Awst 1943.... un pilot 3 trainee radio operators... hedfan dros y mor ond colli ei ffordd mewn cymyla a hedfan mewndirol i fewn i Fynydd Llwytmor. **Gwynfor Thomas**

Doedd y tywydd ddim yn gret (tybed oedd storm 29 Awst wedi cyrraedd erbyn hynny?). Hedfan o flaen y storm mae'n debyg?:

29/8/1943, Padog (Dyddiadur D.O.Jones, Padog,Ysbyty Ifan)

> ***GLAW OFNADWY, LLIFOGYDD, STORM ENBYD, TYMHESTLOG.*** [llythrennau mawr y dyddiadurwr]

28/8/1943, Bwlchtocyn (Dyddiadur John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn)

> *BR,3/- **Gwlybaidd iawn**.*

**Oes yna rai fyddai â diddordeb codi cofnodion damweiniau awyren sydd ar wefan Awyrlu'r Fali?**



# Lleuad a llanw yn creu rhyfeddod!




Ddechrau Medi, 2019, yn rhannol drwy effeithiau'r lleuad, y gwynt a llanw anarferol o isel ym Mae Llandudno, gwelwyd olion fforest o goed Gwern a Phîn yr Alban am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Honnir eu bod yn dyddio'n ôl dros 8,000 o flynyddoedd! Mae traddodiad am diroedd chwedlonol Helig a oedd yn ymestyn o Sir y Fflint i Fae Conwy, ac a gafodd eu boddi gan lifogydd mawr yn y chweched ganrif.


LLUN: Tanya Maria




Mae un fersiwn yn sôn am ferch Helig ap Glannawg, Arglwydd Tyno Helig, oedd mewn cariad â dyn ifanc, cominwr. Fyddai hi ddim yn cael ei briodi gan nad oedd yn gwisgo coler aur fel y byddai uchelwr. Un diwrnod gwelodd y llanc uchelwr, ymosod arno a'i ladd. Aeth â'r goler aur i'r forwyn. Wrth iddo gloddio'r bedd, clywodd lais yn galw, *"Daw dial, daw dial."* Aeth yn ôl at y ferch a dywedodd hi, *"Os clywi y llais eto, gofyn pryd y daw?"* Pan glywodd y llais eto, gofynnodd *"Pryd ddaw?" "Yn amser eich plant, wyrion a gor-wyrion"* meddai llais yr ysbryd. Pan glywodd y ferch hyn dywedodd *"O, byddwn yn farw erbyn hynny."* Priodwyd y ddau a buont byw yn ddigon hir i weld eu hwyrion, o'r bedwaredd genhedlaeth. Un noson cynhaliwyd gwledd wych yn Llys Helig gyda phawb mewn hwyliau da. Anghofiwyd am y llais ers amser maith. Anfonwyd un o'r morynion i'r seler i nôl mwy o win. Er syndod iddi, roedd y seler yn hanner llawn o ddŵr a physgod y môr yn nofio ynddo. Rhuthrodd allan, a chyda'i chariad, bardd y llys, llwyddodd i ffoi i Trwyn yr Wylfa, cyn i'r holl diroedd ffrwythlon a'r palas gael eu boddi gan y môr. Erbyn y bore wedyn roedd Llys Helig i gyd wedi diflannu!

**Dyma ddywed geiriau'r hen rigwm:**

***"Fuoch chi 'rioed yn morio?***
***Wel do, mewn padell ffrio,***
***Chwythodd y gwynt fi***
***i'r Eil o Man,***
***A dyna lle bum i'n crio."***



***Ond, ganrifoedd lawer yn ôl fe allech chwi gerdded yr holl ffordd i Ynys Manaw, -meddan nhw!***